# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2026

Amser: 08.58 - 09.25

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Steffan Lewis (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Marc Wyn Jones, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

Nododd y Pwyllgor Busnes y newidiadau a ganlyn:

- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro er mwyn caniatáu i'r eitem nesaf o fusnes gael ei hystyried (5 munud).
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar yr eitemau canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (60 munud)
    - Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 fod Bil sydd i'w alw'n Fil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) yn cael ei drin fel Bil Brys y Llywodraeth
    - Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.98(ii) i gytuno ar amserlen ar gyfer y Bil sydd i'w alw'n Fil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth)
- Cyfnod pleidleisio (5 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Cynnydd a chyflawniad Economi Cymru yn y dyfodol (30 munud)
- Egwyddorion cyffredinol Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) (60 munud) *(Yn amodol ar dderbyn y cynigion cynharach)*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 8.15pm.

Dydd Mercher

Nododd y Pwyllgor Busnes y newidiadau a ganlyn:

Pwyllgor o’r Senedd Gyfan – 13.00 (dros dro)

- Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) – trafodion Cyfnod 2 (60 munud)

- Dadl: Cyfnod 3 Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) (60 munud) *(dros dro)*
- Dadl: Cyfnod 4 Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) (15 munud) *(dros dro)*
- Cyfnod pleidleisio (5 munud) *(dros dro)*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 8.30pm.

Gofynnodd Heledd Fychan i'r Llywodraeth ystyried cyflwyno Datganiadau Llafar ar: ddefnydd Llywodraeth Cymru o 'X'; ac, ar golli swyddi yn ddiweddar yn 'Consumer Energy Solutions'.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes fod yr holl Aelodau wedi cael gwybod am y bwriad, o heddiw ymlaen, i orfodi'r *Canllawiau ar Drafodion Rhithwir a Hybrid* mewn perthynas â'r angen am hysbysiad ymlaen llaw er mwyn i Aelod allu bwrw ei bleidlais o bell mewn trafodion Cyfarfod Llawn, gyda'r effaith na fydd Aelod yn gymwys i bleidleisio o bell os nad oes hysbysiad ymlaen llaw wedi dod i law ar ei gyfer.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 20 Ionawr 2026**

- ~~Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Amseroedd Aros y GIG (45 munud)~~ – *Gohiriwyd tan 27 Ionawr*
- Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Diogelwch Tomenni Glo (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Hybiau Iechyd Menywod (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol: Cymru Greadigol (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Teithio i bawb (30 munud)
- ~~Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2026 (10 munud)~~ – *gohiriwyd tan 3 Chwefror*

**Dydd Mawrth 27 Ionawr 2026**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Amseroedd aros y GIG (45 munud)
- Dadl: Cyllideb Derfynol 2026-27 (~~60~~ 90 munud)

Dywedodd y Trefnydd wrth y Pwyllgor Busnes fod y Datganiad ar Amseroedd Aros y GIG yn cael ei ohirio am wythnos gan fod y data diweddaraf i fod i gael eu cyhoeddi ar 22 Ionawr.

Nododd y Trefnydd fod y Ddadl ar Gyllideb Derfynol 2026-27 wedi'i hymestyn yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 04 Chwefror 2026 -**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16 (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Tyrchu'r tir: Gwella iechyd pridd Cymru (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)

### 3.4 Llythyr gan Gadeirydd Bwrdd yr Adolygiad Cynhwysol ac Ystyriol o Deuluoedd ynghylch slot dadl

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y cais a chytunodd i ddyrannu amser i adroddiad y Bwrdd gael ei drafod gan y Senedd ym mis Mawrth 2026, ar ddyddiad i'w gadarnhau.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth)

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan Lywodraeth Cymru ar gefndir, pwrpas ac amserlen arfaethedig y Bil.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer trafodion Cyfnod 2 a 3, fel y'u nodir yn y nodyn drafft a ddarparwyd i'r Aelodau, gan gynnwys:

- y byddai Pwyllgor y Senedd Gyfan yn cyfarfod am 1pm ar 14 Ionawr ar gyfer trafodion Cyfnod 2, gyda'r Cyfarfod Llawn yn dechrau ar ôl diwedd y trafodion hynny ac egwyl fer; a
- bydd Cyfnodau 3 a 4 yn cael eu cynnwys fel yr eitemau olaf yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Ionawr, ar ôl i fusnes y Senedd a'r Cyfnod Pleidleisio ddod i ben.

Nododd y Llywydd fod y Canllawiau ar Drafodion Rhithwir a Hybrid, fel y'u diwygiwyd yn ddiweddar, yn nodi bod yn rhaid i Aelodau gymryd rhan yn nhrafodion cyfnod diwygio Biliau wyneb yn wyneb, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol neu fod cymryd rhan yn rhithwir yn addasiad rhesymol i anghenion penodol Aelod. Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes sicrhau bod unrhyw gais i Aelod gael caniatâd i gymryd rhan yn rhithwir yn ei chyrraedd cyn y trafodion ar 14 Ionawr.

### 4.2 Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch amserlenni ar gyfer craffu ar Filiau

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chydnabod yr heriau i bwyllgorau a rhanddeiliaid sydd wedi codi yn sgil yr amserlenni ar gyfer y Bil hwn a Biliau eraill ym mlwyddyn olaf rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Nododd y Rheolwyr Busnes y bydd cyfle i'r Pwyllgor Busnes nodi ei farn ar amserlennu Biliau yn yr adroddiad sydd ar ddod ar ei Adolygiad o'r broses Biliau Cyhoeddus.

### 4.3 Llythyr gan Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau ynglŷn ag adroddiad craffu Cyfnod 1

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd i ystyried y casgliadau a'r argymhellion perthnasol a gyrhaeddwyd gan Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau fel rhan o'i waith gwaddol, yn sgil cynnwys y Bil ar ddiwedd ei hynt drwy'r Senedd.

### 4.4 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes y wybodaeth ddiweddaraf gan y Trefnydd a chytunodd i wneud yr hyn a ganlyn:

- Cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 20 Ionawr 2026.
- Cyfeirio’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy i’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad terfynol o 20 Ionawr 2026 i gyflwyno adroddiad.

### 4.5 Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes ohebiaeth gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gan gynnwys cais am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ac oedi cyfatebol i ddyddiad y ddadl cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes).

Cytunodd y Trefnydd i ymgynghori ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch y cais ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Reolwyr Busnes yn dilyn y cyfarfod.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ei bod yn bwysig bod cyfle i'r Senedd drafod y Bil cyn diwedd tymor y Chweched Senedd.